

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn-coch Dydd Mawrth 18 o Fedi 2018**

**Minutes of the meeting of the Trefeurig Community Council held in the Penrhyn-coch Village Hall on Tuesday 18 of September 2018**

**Presennol/ Present** : D James (yn y Gadair), G Price, E Reynolds, T Lewis,

E Davies, I Davies

**3773 Ymddiheuriadau/Apologies** Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth / Apologies for absence were received from: Cllrs R Owen. S James, M Evans, K Jenkins

**3774 Datganiadau Budd / Declarations of Interest**

Dim / None

**3775 Cofnodion / Minutes** Derbyniwyd fod Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 15 o Fai 2018 yn gywir. Heblaw am y cywiriad o newid Postbach i Pantbach yng nghofnod 3771.

The minutes of the last meeting held 15 of May 2018 were confirmed to be a correct record apart from the correction of changing Postbach to Pantbach in minute 3771.

**3776 Materion yn Codi / Matters Arising**

**Maes Seilo** – Cyng D Mason yn absennol, felly dim gwybodaeth bellach ar gael.

Cllr D Mason not present therefore no further information available.

**Ardwyn** – Dim gwybodaeth bellach. Er nodwyd fod yr ardal wedi gwella.

**Ardwyn** – No further information, other than the area has improved slightly.

**Tanrallt** – Roedd y Gofrestrfa Tir wedi gwrthod cais y Cyngor am “Rybudd yn erbyn Cofrestru Cyntaf”. Awgrymodd y cyfreithiwr y byddai modd i'r Cyngor gael statws Gwyrddfan Pentre. Cytunwyd i beidio â mynd â'r mater yn bellach.

**Tanrallt** – The Land Registry had rejected the application for “Caution against First Registration”. The solicitor had suggested the Council might seek Village Green status. It was agreed to let the matter rest.

**Coed** – Nid oedd y coed ar dir Tan-bryn wedi eu torri. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir eto

**Trees** – The trees on the land belonging to Tan-bryn had not been cut. Clerk to chase Ceredigion County Council again.

**Y gofeb** – Roedd y gwaith wedi'i gwblhau. Bu canmoliaeth am safon y gwaith

The work had been completed and there was praise for the work.

**Llwybr/Footpath** ; Roedd peth oedi oherwydd i Geredigion golli'r cynllun gwreiddiol ond roedd y mater mewn llaw.

There was a delay as Ceredigion has lost the original plan but the work was now in hand.

**Ceudwll/Pothole** : Oherwydd y tywydd garw nid oedd Cyng. Reynolds wedi cael cyfle i archwilio'r gwaith.

Due to the inclement weather Cllr Reynolds had not had a chance to inspect the work.

**Cinio Blynyddol/Annual Dinner.** Penderfynwyd gohirio trefnu'r cinio blynyddol tan y cyfarfod nesaf.

It was resolved to postpone arranging the annual dinner until the next meeting.

**Gogorddan** – Oherwydd absenoldeb Cyng. Mason nid oedd gwybodaeth newydd am y plas. Cytunwyd y dylai'r Cyngor ysgrifennu at y Brifysgol i holi a oes cynlluniau i osod y tai ger Royal Oak i denantiaid. Dylid nodi diffyg tai ar osod yn yr ardal.

Owing to Cllr. Maons's absence there was no new information. It was agreed that the Council should write to the University asking if there were plans to let the houses opposite Royal Oak to tenants. The letter should note the lack of housing for rent in the area.

**Maes-y-rhosyn** – Derbyniwyd cydnabyddiaeth oddi wrth y Cyngor Sir. Yn ôl yr ateb roedd yr awdurdod wedi camdeall y sefyllfa. Roedd y caban ar y briffordd yn llanw man pasio. Roedd angen symud y caban.

An acknowledgement was received from the County Council. According to the answer the authority had mis-read the situation. The cabin was on the highway obstructing a passing place. It needed removing.

**Cwmp i'r afon/Fall to the river** – nid oedd tystiolaeth o unrhyw waith cywiro. Clerc i herio.

There was no evidence of remedial work. Clerk to chase.

**Pyst du a gwyn/Black and white posts** – Dim gwybodaeth.  
No information.

**3777 Gohebiaeth/Correspondence** –

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru** – gwahoddiad i gyfarfod agored yn Ysgol Gyfun Aberaeron nos Iau 20 Medi i drafod Eisteddfod 2020.

National Eisteddfod of Wales – invitation to an open meeting in Aberaeron Comprehensive School Thursday 20 September to discuss the 2020 Eisteddfod.

**Bwrdd Iechyd Hywel Dda/Hywel Dda Health Board** – diweddariad o'r ymgynghoriad.

Up-date on the consultation.

**Un Llais Cymru/One Voice Wales** : ffurflen gofrestru i'r gynhadledd flynyddol. Nid oedd neb 'r gael i fynychu. Clerc i anfon ymddiheuriadau.

Registration form for the annual conference. No councillor was available to attend. Clerc to send apolgies.

**3778 Taliadau/payments** – cytunwyd ar yb taliadau a ganlyn: / the following payments were agreed:

£92.40 HMRC Mehefin/June

£954.00 James Memorials

**3779 PLANNING/CYNLLUNIO** – dim/none

**3780 Reports of meetings/adroddiadau ar gyfarfodydd**

Adroddodd Cyng G Price ei bod wedi mynychu cyfarfod blynyddol PATRASA. Roedd aelodau o'r Clwb Pel-droed wedi mynychu'r cyfarfod a gofyn i'r gymdeithas ystyried gosod gwair ffug ar y cwrt tennis. Cynhelir cyfarfod arbennig i drafod y syniad.

Cllr Price reported that she had attended the PATRASA annual meeting. Members of the Football Club had attended and asked if the tennis courts could be overlaid with artificial grass. A further meeting is proposed to discuss this.

**3781 Any other business/unrhyw fater arall**

**Cofnodion Cyngor Cymuned** : Gofynnodd Cyng E Davies ble roedd y copiau llofnodedig o'r cofnodion yn cael eu cadw.

Cllr E Davies asked where the signed copies of the minutes were kept.

**Nadolig**: Adroddodd Cyng E Davies y byddai Eglwys St Ioan yn cynnal yr arddangosfa Coen Nadolig eleni eto. Angylion fyddai'r testun.

Cllr E Davies informed the members that St John's Church would be holding its Christmas Tree festival again. The subject would be angels.

**Y Parc:** adroddwyd fod y tir ar ochr Glan Ceulan o'r llwybyr yn eiddo i'r cyngor. Roedd rhai o drigolion Glan Ceulan oedd yn cefnu ar y tir yma yn ei gynnal ond nid pawb. Cytunwyd i ofyn i Aled Jones dacluso'r darn yn gyfangwbl.

It was reported that the land on the Glan Ceulan side of the footpath was Council property. Some of the residents who backed onto this land maintained it themselves and some did not. It was agreed to ask Aled Jnes to maintain the entire piece.

**3782 Cyfarfod Nesaf** – cynhelir y cyfarfod nesaf ar 16 o Hydref am 7.00 ym yn Neuadd y Penrhyn.

**Date of next meeting** – the next meeting would be convened on 16 October 2018 at 7.00 pm at Neuadd y Penrhyn.